Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Datganiad Uniondeb Ymchwil Blynyddol 2022-23

## Adran 1: Gwybodaeth gyswllt hollbwysig

| |
|---|
| **Enw'r sefydliad:** Prifysgol Wrecsam |
| **Math o sefydliad:** Sefydliad Addysg Uwch |
| **Y dyddiad y cymeradwywyd y datganiad gan y corff llywodraethu:**<br><br>Pwyllgor Ymchwil:<br><br>Bwrdd Academaidd:<br><br>Bwrdd y Llywodraethwyr: |
| **Cyfeiriad gwe tudalen uniondeb ymchwil y sefydliad:** |
| **Yr uwch-aelod o staff sy'n goruchwylio uniondeb ymchwil:** Yr Athro Richard Day, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil. richard.day@glyndwr.ac.uk |
| **Yr uwch-aelod o staff a fydd yn gweithredu fel cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw un sydd eisiau rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud ag uniondeb ymchwil:** Frances Thomason, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil. Frances.thomason@glyndwr.ac.uk |

## Adran 2: Hyrwyddo safonau uchel o ran uniondeb ymchwil a diwylliant ymchwil cadarnhaol.

### Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddefnyddio'r concordat fel fframwaith ar gyfer ymwreiddio diwylliant ac amgylchedd lle rhoddir arferion gorau ac ymchwil gyfrifol ar waith. Mae'r egwyddorion a'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- cynnal y safonau uchaf o ran manwl gywirdeb ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil
- sicrhau y cynhelir ymchwil yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol

- cefnogi amgylchedd ymchwil a gaiff ei ategu gan ddiwylliant uniondeb ac sy'n seiliedig ar drefniadau llywodraeth da, arferion gorau a chymorth i ddatblygu ymchwilwyr
- defnyddio prosesau tryloyw, amserol, cadarn a theg wrth ymdrin â honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil
- gweithio ynghyd i gryfhau uniondeb ymchwil

Er mwyn cydymffurfio ag ymrwymiad olaf Concordat 2019, mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn ymwneud ag uniondeb ymchwil. Caiff yr adroddiad hwn ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Ymchwil a Bwrdd Academaidd y Brifysgol cyn iddo gael ei gyhoeddi'n gyhoeddus ar dudalennau gwe allanol y Brifysgol.

## Disgrifiad o'r systemau a'r diwylliant presennol

### Polisïau a Systemau

Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn System Gwybodaeth Ymchwil, sef Vidatum Academia, sy'n cynnwys modiwl ar-lein ar gyfer cynnal adolygiad moesegol o ymchwil. Bydd yr holl brosiectau ymchwil sydd angen cymeradwyaeth foesegol, yn ôl diffiniad Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol, yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y system ar-lein er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo. Ym mis Hydref 2023, bydd y system yn cael ei chyflwyno i'r holl staff ac i Fyfyrwyr Ymchwil Ôl-radd. Bydd myfyrwyr Gradd a myfyrwyr Graddau Meistr a addysgir yn cael eu cyflwyno i'r system yn raddol. Rhagwelir y bydd system ar-lein o'r fath yn symleiddio'r prosesau sy'n gysylltiedig ag asesu moeseg, yn categoreiddio risgiau ymchwil ac yn cynnig tryloywder fel y gellir monitro risgiau ac adrodd amdanynt yn rheolaidd.

Mae'r Brifysgol wedi creu strwythur newydd ar gyfer pwyllgorau gogyfer adolygu ffurflenni cais moeseg ymchwil. Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn adolygu ceisiadau yr ystyrir bod risg yn perthyn iddynt – hynny yw, risg sy'n fwy na risg fach iawn. Mae'r pwyllgor hwn yn cyfarfod unwaith y mis ac mae'n atebol i'r Pwyllgor Ymchwil. Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Phwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd yn adolygu ceisiadau yr ystyrir bod risg fach iawn yn perthyn iddynt. Mae'r pwyllgor hwn yn adolygu ceisiadau o bell.

Mae gan Brifysgol Wrecsam bolisïau a systemau cynhwysfawr sy'n llywodraethu materion yn ymwneud ag uniondeb ymchwil ac sy'n sicrhau ein hymrwymiad i'r gwerthoedd craidd a bennir yn y Concordat, megis:

- Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol
- Rheoliadau ar Ymarfer Ymchwil
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Gweithdrefn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae Strategaeth Ymchwil y Brifysgol a Strategaeth Gyfathrebu ac Effaith Ymchwil y Brifysgol yn nodi gweledigaeth ymchwil drawsnewidiol y Brifysgol, sy'n cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd, trwy fod yn rhyngwladol ragorol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a manwl gywirdeb.

Mae'r Swyddfa Ymchwil yn sicrhau bod yr holl staff a'r holl Fyfyrwyr Ymchwil Ôl-radd yn cael gwybodaeth am bolisïau a diweddariadau gweithdrefnol, newyddion am y sector, gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu a hanesion am lwyddiannau'n ymwneud â'r byd ymchwil

trwy gyfrwng Bwletin Ymchwil Misol a anfonir trwy e-bost, a hefyd trwy gyfrwng Cylchlythyr Ymchwil chwarterol a sgyrsiau wythnosol mewnol a gynhelir ar y campysau.

Mae'r Brifysgol yn cynnal Tŷ Agored ar gyfer Ymchwil bedair gwaith y flwyddyn, Bore Coffi Ymchwil unwaith y mis a sesiynau Caffi Diwylliant Ymchwil. Mae'r ddwy gyfadran wedi lansio Cyfres o Seminarau Ymchwil sydd ar agor i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae'r mentrau hyn yn rhan o'n gwaith parhaus i hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol a chynhwysol ym Mhrifysgol Wrecsam a chreu man agored a thryloyw lle gall ymchwilwyr drafod syniadau a phrosiectau ymchwil sydd ar y gweill.

Yn allanol, lansiodd y Brifysgol Sgyrsiau Ymchwil Glyndŵr yn 2021 – a elwir yn Sgyrsiau Ymchwil Wrecsam erbyn hyn – sef cyfres o ddarlithoedd rhad ac am ddim y gall y cyhoedd gymryd rhan ynddynt er mwyn trafod amryw byd o bynciau sy'n ysgogi'r meddwl.

**Diwylliant, datblygiad ac arweinyddiaeth**

Mae Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol yn goruchwylio uniondeb ymchwil y Brifysgol ar ran y Bwrdd Academaidd.

Yr Is-Ganghellor Ymchwil, sef yr Athro Richard Day, yw'r Unigolyn Penodol ar gyfer Uniondeb Ymchwil o fewn y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall pryderon sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil fod yn gymhleth ac yn hynod sensitif, ac y gall hyn effeithio ar lesiant emosiynol a meddyliol y bobl dan sylw. Os bydd unrhyw rai yn dymuno mynegi pryderon yn gyfrinachol ynglŷn â'r modd y cynhaliwyd ymchwil neu ynglŷn ag uniondeb ymchwil a wnaed dan nawdd y Brifysgol, gallant wneud hynny trwy gysylltu â'r Unigolyn Enwebedig ar gyfer uniondeb ymchwil, sef yr Athro Richard Day, neu'r unigolyn cyswllt penodol, sef Frances Thomason, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil.

Hefyd, gellir mynegi pryderon yn lleol yn y lle cyntaf trwy gyfrwng Deoniaid y Cyfadrannau academaidd.

Cred Prifysgol Wrecsam fod gan holl aelodau ein cymuned ymchwil rôl o ran datblygu a hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol a chynhwysol. Yn 2021, llofnododd y Brifysgol y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr. Sefydlwyd gweithgor a oedd yn cynnwys ymchwilwyr, myfyrwyr ymchwil a staff gwasanaethau proffesiynol ledled y Brifysgol, i hyrwyddo'r concordat. Mae'r grŵp yn adolygu diwylliant ac amgylchedd holl ymchwilwyr y Brifysgol, ac ar hyn o bryd mae'n cynnal dadansoddiad o'r bylchau yn y Concordat Uniondeb Ymchwil.

**Monitro ac adrodd**

Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae 'Adolygu'r Polisi Camymddwyn mewn Ymchwil ac Achosion Camymddwyn mewn Ymchwil' ac 'Adolygu'r Modd y Caiff Uniondeb Ymchwil ei Hyrwyddo' yn eitemau sefydlog ar yr agenda.

Bob chwarter, mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, y Swyddog Cyllid Ymchwil a Phwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn llunio adroddiad diweddaru ar gyfer y Pwyllgor Ymchwil.

Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn adolygu Strategaeth Ymchwil y Brifysgol a Strategaethau Ymchwil y Cyfadrannau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Caiff anghenion ymchwil y staff eu pennu trwy gyfrwng gweithdrefn Adolygu Datblygiad Personol a Chynlluniau Ymchwil Personol a ddefnyddir i lunio rhaglenni hyfforddi a datblygu newydd.

## Newidiadau a datblygiadau yn ystod y cyfnod a adolygir

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Brifysgol wedi lansio system newydd (sef System Moeseg Ymchwil Wrecsam), mae wedi cyflwyno strwythur haenog ar gyfer pwyllgorau moeseg sy'n seiliedig ar lefel y risg sy'n perthyn i brosiectau, ac mae ganddi dudalen newydd ar gyfer y cyhoedd sy'n sôn am Foeseg Ymchwil.

Yn 2022/23, cyflwynwyd y sesiynau hyfforddi canlynol: Cyflwyniad i Foeseg Ymchwil, Gweithdy Cydsyniad ar Sail Gwybodaeth, Cyflwyniad i Uniondeb Ymchwil, Gweithdy Rheoli Risgiau mewn Ymchwil, Rheoli Data Ymchwil, a Gweithdy Cyfrinachedd a Phreifatrwydd mewn Ymchwil.

Roedd cynhadledd staff flynyddol y Brifysgol – sef 'Ymgysylltu' – yn cynnwys sesiwn yn ymwneud â'r modd y gall arferion da mewn ymchwil gyfrannu at gynnal diwylliant ymchwil llewyrchus. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar egwyddorion y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil ac ar bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer uniondeb ymchwil, a'r modd y mae hyn oll yn adlewyrchu ar greu diwylliant ymchwil da yn y Brifysgol.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth Ymchwil, ac mae'n atebol i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pwyllgor Ymchwil. Gofynnwyd i aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn adolygu neu weithredu'r canlynol: Polisi Rheoli Data Ymchwil, Polisi Ymchwil sy'n Sensitif o Safbwynt Diogelwch, Polisi Mynediad Agored, Polisi Rheoli Allforion, Rheoli Cofnodion Ymchwil ac Amserlenni Cadw, Atebion Digidol Cyffredin ar gyfer Storio Data, Atebion Storfeydd Data Mynediad Agored, Hysbysiadau Preifatrwydd Cyfranogwyr Ymchwil, Cytundebau Rhannu/Prosesu Data, Storio data masnachol a data sy'n sensitif o safbwynt diogelwch ac Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Mae'r Swyddfa Ymchwil wedi dadansoddi'r bylchau trwy ddefnyddio Offeryn Hunanasesu UKRIO ar gyfer y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Fel rhan o hyn, ac i ddangos ein hymrwymiad i'r ffaith bod gan holl aelodau ein cymuned ymchwil rôl o ran datblygu a hyrwyddo uniondeb ymchwil, cynhaliwyd dau ymgynghoriad gyda'r staff a'r myfyrwyr ymchwil yn ymwneud ag uniondeb ymchwil a chamymddwyn mewn ymchwil.

## Myfyrio ar gynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol

Treuliwyd y 12 mis diwethaf yn llunio proses newydd ar gyfer pwyllgorau moeseg ymchwil, yn datblygu gweithdrefnau a chanllawiau newydd ar foeseg ymchwil, ac yn lansio ffurflen gais ar-lein newydd ar gyfer y staff a'r myfyrwyr. Ymhellach, yn 2022/23 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr a dadansoddiad o fylchau mewn perthynas ag uniondeb ymchwil a gweithdrefnau ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i faterion yn ymwneud â chamymddwyn mewn ymchwil ac arferion ymchwil amheus. Bu modd i'r Brifysgol bennu bylchau mewn polisïau a chanllawiau'n ymwneud ag Uniondeb Ymchwil yn y Brifysgol, ac mae'n anelu at roi blaenoriaeth i'r rhain dros y 12 mis nesaf.

### Cynlluniau ar gyfer 2023/24

- Mae'r Brifysgol yn cynnig ymrwymo i Ddatganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA) a'r Cynghrair ar gyfer Hyrwyddo Asesu Ymchwil (COARA), a'u llofnodi.
- Llunio Polisi Uniondeb Ymchwil newydd a Gweithdrefn Camymddwyn mewn Ymchwil newydd.
- Cwblhau'r tasgau sydd ar waith dan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth Ymchwil, er mwyn cryfhau'r polisïau, y gweithdrefnau a'r canllawiau sydd ar waith o ran rheoli data a data agored.

- Lansio Strategaeth a Chynllun Gweithredu newydd ar gyfer REF2028 lle caiff diwylliant ymchwil ac uniondeb ymchwil eu hymwreiddio yn adrannau academaidd y Brifysgol.
- Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer y Concordat Datblygu Ymchwilwyr (2023-2025).
- Datblygu tudalennau gwe ac adnoddau hyfforddi'n ymwneud ag Uniondeb Ymchwil.

## Adran 3: Delio â chamymddwyn mewn ymchwil

### Datganiad ar brosesau sydd ar waith gan y sefydliad ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn

Mae'r cyfrifoldeb dros fonitro camymddwyn mewn ymchwil o fewn y Brifysgol yn gorwedd gyda'r Swyddfa Ymchwil, a bydd y Swyddfa Ymchwil yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Ymchwil, a gadeirir gan yr Is-Ganghellor ar gyfer ymchwil. Mae'r cyfrifoldeb dros uniondeb academaidd yn gorwedd gyda'r Tîm Uniondeb Academaidd yn yr adran Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr. O ran honiadau o gamymddwyn ymchwil sy'n ymwneud â staff a myfyrwyr y Brifysgol, bydd modd ymdrin â'r honiadau hyn yn unol â darpariaethau Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol ar gyfer Staff a/neu'r Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Myfyrwyr a'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd neu'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, fel y bo'n briodol. Mae gweithdrefnau cysylltiedig yn cynnwys egwyddorion a dulliau priodol ar gyfer sicrhau y bydd yr ymchwiliadau a gynhelir yn drylwyr, yn deg, yn dryloyw ac yn amserol, ac y cânt eu cynnal mewn modd cyfrinachol.

Yn ystod 2022/23, nid ymchwiliwyd i unrhyw achos o gamymddwyn mewn ymchwil mewn perthynas â staff na myfyrwyr ymchwil ôl-radd.

### Gwybodaeth am ymchwiliadau a gynhaliwyd ynglŷn â chamymddwyn mewn ymchwil

| Natur yr honiadau | Nifer yr honiadau | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr honiadau y rhoddwyd gwybod i'r sefydliad amdanynt | Nifer yr ymchwiliadau ffurfiol | Y nifer a gadarnhawyd yn rhannol ar ôl cynnal ymchwiliad ffurfiol | Y nifer a gadarnhawyd yn llwyr ar ôl cynnal ymchwiliad ffurfiol |
| Ffugio | | | | |
| Anwirio | | | | |
| Llên-ladrad | | | | |
| Methu â bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol | | | | |
| Camgyfleu (e.e. data; cyfraniad; buddiannau; cymwysterau; a/neu hanes cyhoeddi) | | | | |
| Delio'n amhriodol â honiadau o gamymddwyn | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sawl maes yn destun pryder (mewn un honiad) | | | | |
| *Arall** | | | | |
| Cyfanswm: | | | | |